

W217.01 PORI AC ANSAWDD GLASWELLT

Mae darparu porfa o ansawdd uchel yn allweddol i gael y cynnyrch llaeth a chig gorau o anifail pori. Heb reolaeth ofalus, gall ansawdd glaswellt ddirywio'n gyflym a gall hyn effeithio nid dim ond ar berfformiad anifail, ond ar iechyd ac oes y gwyndwn.

BETH YW ANSAWDD GLASWELLT?

Mae ansawdd glaswellt yn rhywbeth cymhleth; mae gan wahanol gynhyrchwyr wahanol flaenoriaethau a eu 'glastir o safon uchel'. I gael yr ansawdd gorau, mae angen cydbwysedd rhwng cynnal ansawdd mae glaswellt a chadw nodweddion y glastir sy'n cefnogi lefel porthiant uchel.

ANSAWDD MAETHOL

Treuliadwyedd (Gwerth D) ac Egni - mae gan y rhain gysylltiad agos gyda chyflwr y tyfiant y borfa - mae gan lastir ifanc a deiliog lefelau D a ME uwch na'r rhai sydd wedi dechrau ffurfio pennau neu sy'n cynnwys llawer o ddeunydd marw. Mae'r gyfradd ddirywio yn cynyddu'n sydyn unwaith fo'r pennau wedi dechrau ffurfio- gan golli 3% o dreuliadwyedd mewn wythnos. Mae gan Rygwellt werth D o 74 ar gyfartaledd, gyda lefel llawer uwch o dreuliadwyedd na mathau eraill o wair e.e. maeswellt penwyn sy'n 54. Mae gostyngiad o 1 uned D yn niet anifail yn rhoi gostyngiad o 5% yn ei berfformiad.

Protein. Mae'r lefelau protein yn gysylltiedig gyda chynnod tyfiant y glaswellt ac mae maethiad y pridd yn dylanwadu ar hyn. Yn nechrau'r gwanwyn bydd y lefelau ar eu hanterth a thros 30%. Mae ffurfiant Protein yn dibynnu ar allu'r planhigion i gymryd nitrogen o'r pridd - felly gellir eu dylanwadu gan nitrogen a chwelir ar y pridd ond hefyd gan lefelau potash a sylffwr a pH y pridd. Mae anifeiliaid yn ymdrechu i ddal lefelau uchel o brotein ac felly gall glaswellt deiliog braf fod yn wastraffus a bod ag effaith negyddol ar iechyd y rwmen.

Cynnwys Deunydd Sych (DM). O holl nodweddion ansawdd glaswellt, deunydd sych yw'r un sy'n amrywio fwyaf a'r un sydd yn lleiaf hawdd ei reoli. Mae deunydd sych isel, gaiff ei sbarduno gan dywydd gwlyb, yn gostwng yr hyn mae'r anifeiliaid yn ei fwyta. Unwaith fo'r lefelau yn syrthio o dan tua 12% mae hi'n anodd iawn i anifeiliaid fwyta digon o ddeunydd sych i gwrdd â'u gofynion egni - felly dylech fod yn barod i roi porthiant ychwanegol iddynt.

NODWEDDION GLASTIR

Dwysedd Glastir Mae tywarchen dynn iawn gyda dwysedd uchel o grachgoed yn helpu i uchafu faint mae'r anifail yn ei borthi gan hefyd atal y glaswellt rhag mynd yn lleidiog.

Uchder y Glastir/Glaswellt Arno. Bydd y targedau i'r swm o laswellt o flaen anifail pori yn dibynnu ar y math o anifail. Bydd lefel uchel/uchder glaswellt yn uchafu faint mae'r anifail yn ei fwyta ond gall beryglu dwysedd y glastir ac arwain i lefelau uchel o wastraff a gwrthod. (Gweler ein taflen wybodaeth am fesur glastir).

Chwyn. Mae'r canran o rywogaeth sydd heb ei hau mewn glastir yn effeithio ar ei nodweddion maethol a pha mor flasus ydyw. Gall chwyn fel ysgallen y maes hefyd leihau faint mae anifail yn ei fwyta a chynyddu'r hyn gaiff ei wrthod.

Difwyno a Gwrthod. Mae slyri, darnau gyda phridd a thail/iwrin i gyd yn arwain at wrthod y glastir gan yr pori gan felly leihau'r hyn y gall ei fwyta. Bydd y rhannau gaiff eu gwrthod yn dueddol o fynd yn goesog g'ansawdd. Mae'r rhannau gaiff eu gwrthod yn crynhoi yn gyflym gan hefyd effeithio ar bori hwyrach. Gall afiechydon gwair fel corunrwd yn niwedd yr haf/hydref hefyd leihau faint mae anifail yn ei fwyta.

Cyfansoddiad Glastir - Mae cadw nifer uchel o rywogaethau wedi eu hau yn y glastir (rhygwellt, rhonwellt a meillion) yn uchafu'r gwerth maethol. Bydd adeiledd da'r pridd a chemeg pridd da yn annog rhygwellt i gadeirio'n gyflym gan lenwi unrhyw fylchau yn y dywarchen gan atal chwyn rhag treiddio. Bydd ail-hadu rheolaidd a/neu hau uwchben yn helpu i gadw'r ansawdd drwy'r fferm.

Dewis Mathau - Pan fyddwch yn dewis mathau o laswellt i wyndynau newydd sicrhewch eu bod yn gweddu i'ch system. Er enghraifft, gall mathau sy'n ffurfio pennau yn gynnar roi glaswellt tymor cynnar da ond yn aml byddant yn colli eu hansawdd yn ystod yr haf. Mae rhestr NIAB o'r mathau a argymhellir yn rhoi gwybodaeth am dreuliadwyedd gwahanol fathau - dewiswch y rhai sy'n rhoi ansawdd da yn ogystal â chnwd da.

Darn o'r rhestr argymhellir gan NIAB o Rhygwellettiau Lluosflwydd Diploid sy'n Ffurfio Pennau yn Hwyr

Math	Lasso	Pastour	AberAvon	AberZest	Cancan	Portstewart
Gwerth D	66.9	68.5	70.8	69.2	68.6	66.7
Cynnyrch Pori (fel % o'r math rheoli)	96	103	107	104	104	100

Defnyddio Meillion Gwyn - Mae bod â nifer sylweddol o feillion gwyn (30% ar gyfartaledd) yn helpu i gynyddu'r cynnwys protein yn ogystal â gwella'r statws mwynol. Mae porthiant yr anifeiliaid yn uwch ar lastir wedi ei seilio ar feillion na glastir glaswellt yn unig.

Asesu'r Glastir - Mae mesur glastir yn rhoi gwybodaeth werthfawr i helpu cadw'r ansawdd. Mae gosod targedau addas i laswellt neu uchder ar yr wyneb ar ddechrau a diwedd y pori yn cadw'r tyweirch yn ffres ac yn cadw lefel porthiant. Wrth amcangyfrif y gorchudd cofiwch am effeithiau tywydd gwael ar gynnwys deunydd sych glaswellt. Gall dadansoddiad cemegol ar adegau allweddol o'r flwyddyn hefyd ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i helpu rheoli ansawdd y glaswellt, i wneud penderfyniadau am wella neu newid gwyndynau a phryd i weithredu porthiant atodol.

Brigdorri - Dylid brigdorri i gael gwared â deunydd coesog ac i annog tileru. Mae hi'n hanfodol i frigdorri yn dynn (o dan yr uchder pori targed). Gellir brigdorri yn union cyn pori i gynyddu % y deunydd sych a chynyddu porthiant anifeiliaid - er mai'r ffordd orau i wneud hyn yw drwy gael deunydd deiliog.

Rheoli Pori - Gall gweithredu system arwain a dilyn i leihau ardaloedd gwrthod ac i bori porfa yn isel fod yn effeithiol iawn i gadw ansawdd. Mae hi'n bwysig fod dwysedd y stoc yn ddigonol i gwblhau'r gweithrediad mewn ychydig o ddyddiau fel y gall y gwyndwn ddod yn ôl i'r cylchdro pori cyn gynted â phosib. Profwyd fod pori cymysg gyda defaid a gwartheg yn gwella ansawdd glastir drwy leihau ardaloedd gwrthod a hyrwyddo amodau ffafriol i dyfiant meillion gwyn.

Llyfnu Gydag Oged - Defnyddiwch oged i gael gwared â deunydd marw a mathau glaswellt o ansawdd is, fel maeswellt gwyn. Gellid hefyd eu defnyddio ar ôl chwalu tail i helpu i dorri unrhyw ddarnau mawr a chynhyrchu gorchudd mwy gwastad i gyflymu dadelfeniad. Byddwch yn ofalus i beidio gorddefnyddio ogedau a gwneud y dywarchen yn rhy agored ac yn fwy tebygol o fod yn agored i'w sathru/i fod yn lleidiog.

Chwistrellu Slyri - Bydd chwalu dŵr budr a slyri ar yr wyneb yn difwyno'r dywarchen am rai wythnosau gan atal pori effeithiol a chyfyngu'r porthiant. Dangosodd gwaith ymchwil IGER y gall y pori gael ei effeithio yn sylweddol o hyd gan ddeunydd wedi ei chwalu a hynny hyd at 8 wythnos. Er hynny, gall defnyddio chwistrellwyr neu chwalwyr band leihau'r effeithiau negyddol i tua thair wythnos.

RHAGOR O WYBODAETH

Rhif ffôn: IGER, Canolfan Datblygu Tir Glas: 01970 823026, 823058, 823000

Ebost: gtp.iger@bbsrc.ac.uk, Webpage: <http://www.iger.bbsrc.ac.uk>

Taflên Wybodaeth

303.01 Mesur Uchder Wyneb Glastir

The Grassland Development Centre, based in IGER, is managed by the Welsh Assembly Government as part of Farming Connect.

GDC, Institute of Grassland and Environmental Research / Sefydliad Ymchwil Tir Glas ar Amgylchedd

Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EB Contact: Dr Heather McCalman, Manager - Tel: 01970 823026/823058

